IEUAN DDU ac *ALMANAC Y CYMRO*

gan HYWEL ROBERTS

YN EI bortread o Ieuan Ddu Alltwen yn rhifyn Gwanwyn 1993 o *Y Casglwr*, cyfeiriodd Huw Walters at ei gyfraniad llenyddol cyson i gyfnodolion Cymru ac America. Wrth i mi dreulio peth amser yn ddiweddar yn olrhain hanes *Almanac y Cymro*, a ymddangosodd bob blwyddyn o tua 1835 hyd 1940 o wasg teulu'r Thomosiaid yn Aberteifi, darganfûm dystiolaeth sy'n dangos bod Ieuan Ddu wedi bod yn gyfrifol am lunio'r almanac hwnnw o tua 1873 hyd 1912, a'i fod wedi cyfrannu iddo am rai blynyddoedd cyn hynny.

Isaac Thomas oedd sefydlydd gwasg Heol y Santes Fair, Aberteifi, gwnaeth hynny tua 1825, ac ef yn ôl pob tebyg, sefydlodd *Almanac y Cymro*. Pan fu ef farw ym 1853, ei weddw Margaret, fu'n rheoli'r fusnes. Ym 1867, pan fu hithau farw, aeth y wasg i ofal ei mab, Owen William(s) Thomas. Ef, ym 1866, sefydlodd y *Cardigan and Tivy-Side Advertiser*, neu'r 'Teifiseid' fel y'i hadwaenir ar lafar gwlad hyd y dydd heddiw. Bu yntau farw ym 1873, a'i weddw, Jane Thomas, fu'n rheoli'r fusnes hyd 1885. Y mae'n bur debyg mai hi benododd Ieuan Ddu yn olygydd, neu luniwr, *Almanac y Cymro*, a hynny ym 1873.

Bu golygyddion eraill wrth y gwaith o'i flaen, a'r enwocaf ohonynt oedd Asa J. Evans, cyfreithiwr yn Aberteifi, Rhyddfrydwr amlwg a Bedyddiwr selog. Defnyddiodd golofnau'r almanac i fynegi safbwyntiau radicalaidd cryf, megis pledio achos y tlawd a'r gorthrymedig, ac i gefnogi'r ymgyrch yn erbyn yr Eglwys. Tyfodd yr almanac o ran poblogrwydd gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg — mae peth tystiolaeth (na ellir mo'i ategu yn anffodus) yn awgrymu ei fod yn gwerthu hyd at ddeng mil copi ar hugain yn flynyddol erbyn pumdegau'r ganrif honno. Y mae hefyd yn amlwg oddi wrth enwau a chyfeiriadau'r gohebwyr a'r cystadleuwyr, ac oddi wrth enwau a lleoliadau'r siopau oedd yn ei werthu, bod yr almanac yn cylchredeg yn eang o fewn Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro a chymoedd diwydiannol poblog a Chymreiciaf de Cymru, yn arbennig Cwm Nedd a Chwmtawe, lle y trigai Ieuan Ddu pan oedd yn llanc ifanc.

Hyd yn oed ar ddechrau'r ganrif hon yr oedd y gwaith o argraffu'r almanac yn agwedd bwysig ar weithgarwch y wasg. Mewn atodiad arbennig i ddathlu canmlwyddiant y *Cardigan and Tivy-Side Advertiser* ym 1966, mae un o weithwyr y wasg, David Jones, yn dwyn i gof: *'It was indeed one of the great days of the year when the first of the two sets of pages were put on the machine.* Y mae hefyd yn cofio bod y testun yn cyrraedd o America: *'I remember it arrived in summer, meticulously written on foolscap sheets with all details . . .'* Mewn sgwrs bellach â'r diweddar Gomer M. Roberts crybwyllodd enw Ieuan Ddu fel y lluniwr.

Ond ym 1851 y mae enw Ieuan Ddu yn ymddangos gyntaf yn yr almanac — anfonodd draethawd byr ar y testun 'Dim' wrth ymateb i gystadleuaeth y flwyddyn honno. Wedi hynny ymddengys ei enw'n lled gyson dan gerddi ar amryfal destunau ac wrth ei atebion i bosau a thasgau'r almanac. Rhwng 1874 a 1912 (fe gofiwn iddo ymfudo ddiwedd 1876 neu ddechrau 1877 o Gymru, i fyw ger Utah yn yr Unol Daleithiau) mae ei ddylanwad i'w weld yn glir ar gynnwys yr almanac. Yn ei golofn olygyddol, y rhoed iddi'r teitl 'Y Tymmorau', mae'n cyfeirio'n rheolaidd at ddigwyddiadau yn America, megis Etholiadau Arlywyddol, ac fe gofnodir ffeithiau niferus a hynod am fywyd y wlad. Ond yn anad dim arall, mae'n dychwelyd drosodd a thro at ddau destun oedd yn amlwg yn bwysig iddo. Yn gyntaf, mae'n dadlau bwysiced oedd meithrin a chadw cysylltiad clòs rhwng Cymru ac America, ac yn ail, mae'r daroganau a'r deunydd 'golygyddol' yn llym eithriadol ar y grefydd Babyddol. Mae hynny i'w ddisgwyl efallai o law ymfudwr a Mormon ymroddedig.

Fel y nododd Huw Walters, mynnodd Ieuan Ddu gynnal yr iaith Gymraeg ar ei aelwyd yn America, a thra bu'r tad yn llunio *Almanac y Cymro*, bu ei feibion, Ivor a Thaliesin, yn cyfrannu iddo hefyd. Cyfrannodd y naill a'r llall ohonynt ofyniad neu dasg neu gerdd neu ohebiaeth bob blwyddyn rhwng 1887 a 1912, y flwyddyn y bu farw eu tad. Wedi'r flwyddyn honno ni chanfuwyd eu henwau yn yr almanac.

Er i Ieuan Ddu farw fis Mawrth 1912, mae ei neges olaf i'w darllen yn rhifyn 1913 o *Almanac y Cymro*, pryd y mae'n estyn cerydd i'w gyd-Gymry yn America am gynnal eu gweithgarwch diwylliannol a chymdeithasol drwy gyfrwng y Saesneg — 'melldith ar eu corryn os gwadant iaith eu mamwlad', meddai.

Mae'n ddiddorol nodi bod y teyrngedau a gyhoeddwyd iddo yn crybwyll ei waith a'i gyfraniad fel lluniwr almanac — mae'n amlwg felly bod hynny'n hysbys yn America os nad yng Nghymru. Dyma ddywed y *Deseret News* amdano ym 1912 (teyrnged a welais trwy garedigrwydd Huw Walters): *'As a writer and poet he is best known to those who read and speak the Welsh language . . . Three years before leaving Wales he commenced the work of compiling and editing a Welsh almanac and after his arrival in Utah he continued as editor of the same periodical published in Wales. The work had a wide circulation . . . especially in Cardiganshire, Wales, the county where it was printed.'*

Nid ymataliodd yr almanac rhag mynegi safbwyntiau cryfion wedi cyfnod Ieuan Ddu, er bod enwau'r golygyddion hyd yma'n anhysbys, ac felly fe barhaodd y traddodiad a osodwyd gan Asa Evans ac a gynhaliwyd gan Ieuan Ddu. Erbyn ugeiniau'r ganrif hon yr oedd *Almanac y Cymro* yn bleidiol iawn i fudiadau Cymreig, a Phlaid Cymru yn arbennig, wedi iddi gael ei sefydlu ym 1925. Gwnaed yn fawr o arwyddocâd teitl *Almanac y Cymro* a'r ffaith bod enwau'r golygyddion yn gyfrinach ac felly'n anhysbys, ond mae'n ddiddorol sylwi ar yr un pryd na fynegwyd syniadau tebyg fel y cyfryw yn y *Cardigan and Tivy-Side Advertiser*, er mai'r un teulu oedd yn ei gyhoeddi ac yn berchen arno. Ond mae'n bwysig nodi bod y papur wedi sefydlu colofn — ac yna dudalen, farddol neu lenyddol, a hynny oherwydd yr ymateb brwd gaed i'r cynnyrch barddol, llenyddol, cerddorol a beirniadol gyhoeddwyd yn yr almanac. Yng nghyfnod Ieuan Ddu yn bennaf yr ymestynnwyd cynnwys llenyddol yr almanac, a rhoes hynny gyfrwng i fwrlwm llenyddiaeth boblogaidd sir Aberteifi a'r ardaloedd cyfagos.



ALMANAC

AM

18 73.

CASGLEDIG YN OL RHEOLAU SERYDDOL

FRANCIS MOORE.

ARWYDDION GWLAW.

Mae mynwes natur ini'n llawn
O hîn-arwyddion cywir iawn,
Rhai yn y maes, rhai yn y tŷ,
Ac eraill yn yr wybren fry.

Ust! clywch y gwynt, chwibana'n
'Nol diane o lochesfa gudd; [brudd
Fel meddwyn crwydra yma'thraw,—
Mae hyn medd rhai, 'n arwyddo gwlaw

Os dan yr haul bydd pystion maith,
A'r nant yn sychu ar ei thaith,
Y tant yn llac, a'r rhaff yn dyn,
Daw gwlaw ar fyr dros fro a bryn.

Yr enfys hardd rychwanta'r nen,
A'r gelen waedlyd gwyd ei phen;
Gwylanod fyrdd sy'n gado'r môr,
I ddweyd 'Daw gwlaw yn helaeth 'stôr.'

Fy nhaid a dd'wedai, "Hogyn iach,
Os gweli byth y coryn bach
Yn dringo fel yn awr o'i wê,
Bydd gwlaw ar ffrwst i ddod i'r lle."

Os gweli byth y cwrcath du,
Yn llwfr ar yr aelwyd gu,
Gan drwsio 'i farf yn drefnus iawn,
A llyfu 'i draed—hir wlaw a gawn.

O flaen y gwlaw mae'r murlan'n llaith,
A'r cwn yn nghwsg ar ganol gwaith;
Am boen cymylau nid oes taw,
A'r celîi gleciant cyn y gwlaw.

Os gwelwn byth y chwyrnllyd foch,
Yn crwydro gyda'r aner goch;
A'r clêr yn erlyn ar eu hol,
Daw gwlaw yn siwr dros fryn a dôl.

Ac os mageiod yn y nos,
A glaer oleuant wlithawg ros;
A llyffaint yn ymgripio i ma's,
Arwyddant wlaw a thywydd cas.

A chyda'r llawr y wenol fach,
Eheda gyda'i bron yn iach;
A'r praidd a welir gyda'r wawr,
Yn awchus docio'r weirglodd fawr.

Dywedir y cawn wlaw yn lli,
Os pori glaswellt fydd y ci;
Os bydd y paen a'r hwyad wen [ben.
Yn lleisio'n ddwys, bydd gwlaw uwch

Dywedir, —Os yn uchel cân
Y cricell ger y fflamawg dân;—
Os syrth yr huddygl gyda thrwst,—
Bydd gwlawog hîn i dd'od ar ffrwst.

GAN GYMRO, GER ABERTEIFI.

ABERTEIFI:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN O. W. THOMAS,

Swyddfa'r "Advertiser," 39, Heol-fair.

Rhan o wynebddalen rhifyn 1873 o Almanac y Cymro. *Yn ystod 1873 bu O. W. Thomas farw ac fe gymerodd Jane Thomas, ei weddw, at reoli'r busnes ac mae'n debyg mai hi benododd Ieuan Ddu yn olygydd* Almanac y Cymro *am 1874.*